

Trefniadau Amddiffyn Rhyddid



Cynhyrchwyd mewn cydweithrediad â Phobl yn Gyntaf Cwm Taf a Blaenau Gwent, y Tîm Partneriaeth Rhanbarthol a Bwrdd Iechyd Athrofaol Aneurin Bevan

1. Cyflwyniad



Mae gan bawb hawl i ryddid. Mae hyn yn golygu bod yn rhydd. Er enghraifft:

- Rhyddid i fynd allan i ble bynnag yr ydych am fynd
- Medru gadael eich cartref



Mae ambell i achos ble na all pobl fod yn rhydd. Er enghraifft:

- Os yw rhywun wedi torri'r gyfraith
- Os yw'n beryglus i rywun fynd allan ac nid ydynt yn deall y peryglon




Mae cyfreithiau ar gael i amddiffyn pobl os yw eu rhyddid yn cael ei dynnu i ffwrdd. Y llysoedd sy'n penderfynu os yw'r cyfreithiau hyn yn cael eu dilyn.



Mae'r gyfraith yn newid.

2. Y Ddeddf Galluedd Meddyliol



Bydd y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn cymryd lle'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DOL's).



Mental Capacity Act 2005

Bydd hyn yn ychwanegu at y Ddeddf Galluedd Meddyliol



Mae hyn oherwydd bod y rheolau yn hen ac nid ydynt yn gweithio



Gall fod yn anodd deall DOLS

3. Trefniadau Amddiffyn Rhyddid



Y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid fydd y rheolau newydd



Bydd y rheolau hyn i bawb sy'n colli eu rhyddid nid yn unig y rheini mewn cartrefi gofal ac ysbytai. Lle nad oes ganddynt alluedd.



Byddant yn amddiffyn pawb sy'n 16+



Byddant yn cydnabod hawliau pobl o dan Erthygl 5 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol pan na fydd pobl yn gallu rhoi caniatâd am eu gofal neu driniaeth.

4. Y Prif Newidiadau



Gall Trefniadau Amddiffyn Rhyddid fod yn berthnasol pan fydd pobl yn symud o un lle i'r llall




Bydd staff sy'n gweithio gyda pherson sydd heb allu, yn gallu gwneud asesiad



Os yw'r gofal neu'r cymorth sydd ei angen ar rywun yn golygu ei fod yn gyfyngedig neu o dan reolaeth barhaus yna bydd staff yn rhoi'r asesiad i weithiwr proffesiynol arall



Bydd y gweithiwr proffesiynol wedyn yn penderfynu a oes angen cyfyngu ar eu rhyddid er eu diogelwch



Bydd angen gwiriadau i sicrhau bod y penderfyniadau a wneir er y budd gorau i'r person hwnnw os oes eu hangen o hyd, ac os nad oes unrhyw ffordd arall i'w cadw'n ddiogel.



Bydd canllawiau ar sut y bydd y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn gweithio. Mae hyn yn cael ei alw'n Cod Ymarfer



Bydd staff yn cael hyfforddiant fel y byddant yn gwybod sut mae Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn gweithio



Y sefydliad sy'n gofalu am y person sy'n gyfrifol am ddilyn y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid. Gallai hyn fod y bwrdd iechyd os yw person yn yr ysbyty neu'r cyngor os yw'r person yn byw yn eu cartref eu hunain neu leoliad arall



Gall eiriolwr eich helpu i gael llais

5. Beth Sy'n Digwydd Nesaf?



Mae'r Cod Ymarfer allan nawr felly gallwch ddweud eich dweud. Bydd y Cod yn helpu i esbonio pethau. Cliciwch [yma](#) i weld yr ymgynghoriad neu [yma](#) i weld fideos Llywodraeth Cymru



Gallwch ddod o hyd i gyflwyniad [yma](#)



Bydd digwyddiadau ar-lein, a gallwch ymuno â nhw i gael gwybod mwy.

16 Mehefin

20 Mehefin 2022.

Gofynnwch i Sarah neu Tom os ydych am ymuno â nhw.



Neu, gallwch gysylltu â

Sarah.livingstone@torfaen.gov.uk

ffoniwch 07929 725242

neu Tom.Grace@wales.nhs.uk i gael mwy o wybodaeth




Gwrandewch ar y Podlediad yma a grëwyd gan Gynghair Gwirfoddol Torfaen

[##WordFromTheThird Podcast – Liberty Protection Standards Torfaen – TVA \(tvawales.org.uk\)](#)



[Taflenni Ffeithiau Trefniadau Amddiffyn Rhyddid](#)



Adnoddau Trefniadau Amddiffyn Rhyddid – Gellir cael Cyfraith a Pholisi Galluedd Meddyliol ar wefan SCIE [yma](#)